

# Ffurflen cytundeb teuluol

Cynhaliaeth Plant
opsiynau

# Cynhaliaeth plant a chytundebau teuluol

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn awyddus i'w plant gael y gorau mewn bywyd, hyd yn oed os ydynt yn byw ar wahân. Gall gwneud trefniadau cynhaliaeth plant helpu eich plant i gael y cychwyn gorau bosib mewn bywyd.

Mae cynhaliaeth plant yn gymorth ariannol rheolaidd a dibynadwy sy'n gallu helpu tuag at gostau byw'r plentyn o ddydd i ddydd. Ond nid oes rhaid i hyn fod am arian yn unig. Bydd y rhiant sydd ddim yn gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd yn rhoi cynhaliaeth plant i'r rhiant neu'r person (fel taid neu nain, neu warcheidwad) sy'n brif ofalwr.

Gall cynhaliaeth plant wneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant gan y gall helpu i dalu am bethau fel dillad, bwyd a phethau hanfodol eraill. Gallai hefyd helpu i sicrhau bod y ddau riant yn aros yn rhan o fywydau eu plant.
Mae llawer o bobl yn penderfynu trefnu cynhaliaeth plant rhwng ei gilydd. Gall hyn ddigwydd heb gynnwys unrhyw un arall, neu gyda help gan berthynas, ffrind neu gyflafareddwr proffesiynol. Nid oes rhaid i hyn fod am arian yn unig bob amser chwaith - gall gynnwys mathau eraill o gymorth, fel prynu gwisg ysgol. Bydd y ffurflen yma yn eich helpu i wneud y math yma o gytundeb teuluol.

## Pwy ydym ni

Mae Opsiynau Cynhaliaeth Plant yn wasanaeth a gynigir gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant, sef y corff newydd ar gyfer cynhaliaeth plant a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2008.

Rydym yn rhoi gwybodaeth ddiduedd a chymorth i helpu rhieni i allu gwneud penderfyniadau am y gwahanol opsiynau cynhaliaeth plant sydd ar gael. Rydym yn cynnig gwasanaeth sy'n wahanol i'r un a roddir gan yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) sydd ddim ond yn un o'r opsiynau ar gyfer cael cynhaliaeth plant gan y rhiant arall.

Rydym yma i'ch helpu i benderfynu pa opsiwn sydd orau i chi.

# Ein cytundeb teuluol

Dyma rydym wedi cytuno arno ar gyfer cynhaliaeth ein plant

## A Ein plant

Pwy rydym yn gyfrifol amdanynt

### Ein plentyn cyntaf

Enw llawn

Dyddiad geni / /

Cyfeiriad

### Ein hail blentyn

Enw llawn

Dyddiad geni / /

Cyfeiriad

### Ein trydydd plentyn

Enw llawn

Dyddiad geni / /

Cyfeiriad

## Ein pedwerydd plentyn

Enw llawn

Dyddiad geni / /

Cyfeiriad

## B Y rhieni

Pwy wnaeth y cytundeb yma ac sy'n cytuno i gadw ato

### Mam

Enw llawn

Cyfeiriad

Ffôn

e-bost

Incwm wythnosol £

### Tad

Enw llawn

Cyfeiriad

Ffôn

e-bost

Incwm wythnosol £

# C Y taliadau

Os byddwch angen help i weithio allan faint o gynhaliaeth i dalu, defnyddiwch ein cyfrifydd cynhaliaeth plant ar-lein yn **www.cmoptions.org** neu ffoniwch **0800 988 0988**.

## Ar gyfer ein plentyn cyntaf

Pwy sy'n talu?

Faint? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flyddyn)

Dyddiad talu?

(er enghraifft: pob dydd Gwener, diwrnod gwaith olaf y mis)

Dyddiad talu cyntaf __ __ / __ __ / __ __

Talu sut?

(er enghraifft: arian parod, siec, archeb sefydlog)

Sut gwnaethom bennu'r swm yma?

## Taliadau eraill

Am beth?

(er enghraifft: gwyliau, ffioedd ysgol neu wisg ysgol, gwersi, dillad ac yn y blaen)

Gwerth? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad adolygu __ __ / __ __ / __ __

## Ar gyfer ein hail blentyn

Pwy sy'n talu?

Faint? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad talu?

(er enghraifft: pob dydd Gwener, diwrnod gwaith olaf y mis)

Trosodd

Dyddiad talu cyntaf __ __ / __ __ / __ __

Talu sut?

(er enghraifft: arian parod, siec, archeb sefydlog)

Sut gwnaethom bennu'r swm yma?

## Taliadau eraill

Am beth?

(er enghraifft: gwyliau, ffioedd ysgol neu wisg ysgol, gwersi, dillad ac yn y blaen)

Gwerth? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad adolygu __ __ / __ __ / __ __

## Ar gyfer ein trydydd blentyn

Pwy sy'n talu?

Faint? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad talu?

(er enghraifft: pob dydd Gwener, diwrnod gwaith olaf y mis)

Dyddiad talu cyntaf __ __ / __ __ / __ __

Talu sut?

(er enghraifft: arian parod, siec, archeb sefydlog)

Sut gwnaethom bennu'r swm yma?

## Taliadau eraill

Am beth?

(er enghraifft: gwyliau, ffioedd ysgol neu wisg ysgol, gwersi, dillad ac yn y blaen)

Gwerth? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad adolygu __ __ / __ __ / __ __

## Ar gyfer ein pedwerydd blentyn

Pwy sy'n talu?

Faint? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddyn)

Dyddiad talu?

(er enghraifft: pob dydd Gwener, diwrnod gwaith olaf y mis)

Dyddiad talu cyntaf __ __ / __ __ / __ __

Talu sut?

(er enghraifft: arian parod, siec, archeb sefydlog)

Sut gwnaethom bennu'r swm yma?

## Taliadau eraill

Am beth?

(er enghraifft: gwyliau, ffioedd ysgol neu wisg ysgol, gwersi, dillad ac yn y blaen)

Gwerth? £

Pa mor aml?

(er enghraifft: unwaith yr wythnos, unwaith y mis, dwywaith y flwyddynr)

Dyddiad adolygu __ __ / __ __ / __ __

## Ch Ein haddewid

Mae'r ddau ohonom wedi darllen y cytundeb yma yn ofalus ac wedi cytuno iddo. Trwy ei lofnodi, rydym yn addo cadw at y cytundeb, er lles ein plant. Os bydd un ohonom yn methu â chadw at y cytundeb am unrhyw reswm, rydym yn cytuno i roi gwybod i'r rhiant arall.

**Mam**

Llofnod

Enw

Dyddiad __ __ / __ __ / __ __

**Tad**

Llofnod

Enw

Dyddiad __ __ / __ __ / __ __

Nid ydy hon yn ddogfen gyfreithiol, ond drwy lofnodi'r cytundeb mae'n ddatganiad clir o'n hymrwymiad i'n plant.

Dyddiad adolygu __ __ / __ __ / __ __

## Pam bod cytundeb teuluol yn syniad da?

Gall gwneud cytundeb teuluol helpu i gadw pethau ar delerau da gyda'r rhiant arall. Mae hyn yn rhad ac am ddim i'w wneud ac nid oes angen cynnwys unrhyw un arall. Hefyd, gall y ddau ohonoch gytuno ar delerau newydd yn gyflym ac yn hawdd wrth i'ch amgylchiadau yn newid.

## Gweithio allan faint

Mewn cytundeb teuluol, nid oes rhaid i chi ddilyn patrwm cadarn i weithio allan cynhaliaeth plant.

Gallwch chi a'r rhiant arall gytuno ar swm wythnosol neu gynnwys ffyrdd eraill o dalu, ble yn hytrach na bod un rhiant yn talu arian i'r llall, maent yn talu am bethau fel mynd â'r plentyn am wyliau, prynu dillad ysgol, bwyd neu dalu am filiau neu welliannau i'r cartref.

Y peth pwysig ydy bod y cytundeb teuluol, yn y pen draw, yn un mae'r ddau ohonoch yn cytuno arno ac yn un sy'n gofalu bod cymorth ariannol dibynadwy ar gael i helpu tuag at gostau byw eich plentyn o ddydd i ddydd. Os byddwch angen help i weithio allan faint o gynhaliaeth i dalu, yn seiliedig ar incwm, gallwch ddefnyddio ein cyfrifydd cynhaliaeth plant ar-lein yn **www.cmoptions.org** neu ffonio **0800 988 0988**.

## Cytuno ar ba mor aml i dalu

Gellir talu'r swm a gytunir arno yn wythnosol, bob pythefnos, unwaith y mis - beth bynnag sydd orau i'r ddau ohonoch. Mae rhai pobl yn ei chael yn haws i reoli eu harian drwy gael, neu drwy dalu cynhaliaeth ar yr un pryd a phan gânt eu cyflog neu fudd-dal yn eu cyfrif banc. Eto, mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau beth fydd orau i chi.

## Sut i wneud neu gael taliadau

Mae sawl ffordd wahanol i wneud neu i gael y taliadau, er enghraifft archeb sefydlog o gyfrif banc, siec neu arian parod. Archeb sefydlog yw'r ffordd orau i wneud yn siŵr y caiff y taliadau eu gwneud yn llawn, ar amser ac y cânt eu cofnodi ar bapur.

## Cadw cofnod ysgrifenedig

Beth bynnag fydd y ddau ohonoch yn cytuno arno mae'n hanfodol eich bod yn cadw cofnod clir ar bapur i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Nid yw eich cytundeb yn gyfreithiol rhwym, ond mae llofnodi'ch enwau arno yn arwydd cryf o'ch ymrwymiad personol iddo.

## Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Gall pethau newid gydag amser, felly o bosib, gallech gytuno ar ddyddiad rhesymol i eistedd lawr a thrafod pethau eto gyda'ch gilydd - efallai bob 6 mis. Bydd pa mor aml y byddwch yn gwneud hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau (er enghraifft, newidiadau i'ch gwaith, unrhyw berthynas newydd neu drefniadau byw gwahanol).

## Beth os na fydd cytundeb teuluol yn llwyddo?

Os na fydd cytundeb teuluol yn llwyddo – gallai hyn fod am nad yw'r taliadau yn cael eu gwneud – siaradwch gyda'r rhiant arall, neu gallwch ffonio Opsiynau Cynhaliaeth Plant.

Os na fydd hynny'n llwyddo, gallwch ofyn i'r CSA wneud trefniadau newydd. Bydd y CSA wedyn yn casglu'r arian ac yn ei dalu i'r rhiant sydd a'r prif ofal o ddydd i ddydd. Os na fydd rhiant yn talu cynhaliaeth, gall y CSA ddefnyddio eu pwerau cyfreithiol i'w gorfodi i dalu. Gallwch ffonio'r CSA ar **08457 138 091** neu ewch i **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** am fwy o wybodaeth.

## Beth os oes mwy nag un plentyn?

Os oes gennych fwy nag un plentyn gyda'r un rhiant gallwch ddod i gytundeb am bob un o'ch plant ar yr un pryd.

Mae lle ar ein ffurflen ar gyfer pedwar plentyn. Os oes gennych blant gyda mwy nag un person, bydd rhaid i chi ddod i gytundeb unigol gyda phob un o'r rhieni eraill ar wahân.

Rhoi gwybodaeth ddiduedd a chymorth i bob rhiant allu gwneud dewis am gynhaliaeth plant

**Cysylltwch gyda ni**
Rhadffôn* **0800 988 0988**
8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
9am i 4pm ar ddydd Sadwrn
**www.cmoptions.org**

Mae'r daflen yma hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael y ffurfiau hyn drwy ein ffonio ar radffôn*
**0800 988 0988**

Ein rhif TexBox a ffôn testun ar gyfer pobl trwm eu clyw yw **0800 988 9 888**

* Mae galwadau ffôn i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond gallech orfod talu os byddwch yn defnyddio cwmni arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0870 o linellau daear BT gostio mwy na 8c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i ch darparwyr gwasanaeth faint yw costau galwadau.

EMA CL0007W (06/2011)

ISBN 978 1 84947 718 5